## Awdurdod Parc Cenedlaethol

**01 Mai 2024**

**Yn bresennol (yn bersonol)**
Y Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Y Cynghorydd S Alderman, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mr GA Jones, y Cynghorydd R Jordan, Dr R Plummer, y Cynghorydd V Thomas, y Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd A Wilcox.

**Yn bresennol (o bell)**
Y Cynghorydd SL Hancock MBE, Mrs S Hoss, y Cynghorydd M James a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

**Hefyd yn bresennol:**
Kate Attrill (Rheolwr Rheoli Datblygu), Elsa Davies (Cadeirydd Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), Catrin Evans (Pennaeth Cyllid), Charles Felgate (Cyfreithiwr), Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Katie Macro (Rheolwr Cyllid Allanol / Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), Jessica Morgan (Pennaeth Datgarboneiddio), Sara Morris (Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu) a James Parkin (Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth).

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.00am – 11.45; 11.55am - 12:45pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James, y Cynghorydd P Morgan, y Cynghorydd B Price a’r Cynghorydd C Williams BEM.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganodd Dr M Havard a'r Cynghorydd M Wiggins bod ganddynt fuddiant yn eitem 8, Adolygiad o Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Datganodd y Cynghorydd V Thomas bod ganddo ddiddordeb yn Adroddiad 14/24, Cyfarwyddyd Erthygl 4, ymgynghoriad ar Wersylla 28 diwrnod. Datganodd y Cynghorydd M James bod ganddi ddiddordeb yn adroddiad 19/24, Diweddariad ar y Cyfleusterau Toiledau. Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel Ymddiriedolwr Plantlife a Chyfarwyddwr Gwelliannau Bioamrywiaeth Plantlife Cyf ond arhosodd pob un ohonynt yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y trafodaethau.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr R Heath-Davies, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod y Cynghorydd A Wilcox wedi mynegi diddordeb a'i fod bellach yn aelod o'r Gweithgor Cynhyrchu Incwm.

Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd a chadarnhaodd y Prif Weithredwr bod paneli safoni yn cael eu cynnal a bod yr holl faterion ar amser i gadw at y dyddiad cwblhau a gadarnhawyd.

O ran pwynt gweithredu 948, 'creu cynllun gweithredu i'w gynnwys yn y Strategaeth Iaith Gymraeg', dywedodd Aelod bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd wedi dosbarthu'r mater hwn a bod adborth cadarnhaol wedi'i gyflwyno ynghylch y pwyntiau gweithredu oedd wedi'u cynnwys.

Manteisiodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ar y cyfle i atgoffa'r Aelodau y gofynnwyd am ddiweddariad gan y rhai oedd yn cynrychioli'r Awdurdod ar wahanol gyrff allanol a bod rhai diweddariadau yn dal heb ddod i law.

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod wedi anfon gwybodaeth ynghylch Croeso Sir Benfro at Mr GA Jones fel y gofynnwyd ac felly gellid dod â'r cam gweithredu hwn i ben.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi dod yn ail yn ddiweddar yn y bleidlais ar hoff Barc Cenedlaethol gan y cylchgrawn Which, a llongyfarchodd y Swyddogion, y Gwirfoddolwyr, a chyd-Aelodau ar y llwyddiant.

Hefyd llongyfarchodd y Cadeirydd y tîm Gwreiddiau at Adferiad a dderbyniodd wobr teilyngdod yn ddiweddar am eu gwaith mewn seremoni Gwobrau Sifil Cyngor Tref Penfro.

Hefyd dywedwyd bod y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod â Janet Finch Saunders, Aelod Ceidwadol Aberconwy a Gweinidog yr

Wrthblaid dros newid hinsawdd i drafod materion megis ail gartrefi, tai fforddiadwy ac ynni gwyrdd.

**Nodwyd.**

**6 . Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau er ystyriaeth/gwybodaeth:

(i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 13/03/2024;
(ii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 06/03/2024.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Adolygiad Blynyddol o Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
Roedd Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro a'r Rheolwr Ariannu Allanol / Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno diweddariad blynyddol ar waith yr Ymddiriedolaeth. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys cyllid diwedd blwyddyn 2023/24, manylion y cyllid a sicrhawyd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, y cynllun Cyflawni Codi Arian ar gyfer 2024/25 a diweddariad ar faterion codi arian o ran yr Awdurdod.

Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelodau, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr bod y tîm yn canolbwyntio ar wneud cais am grantiau oedd yn benodol ar gyfer prosiectau gan fod grantiau ar gyfer cyllid anghyfyngedig yn brin. Ychwanegwyd bod gan yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd £17k o gyllid anghyfyngedig oedd yn cael ei ystyried yn swm addas gan y byddai swm uwch yn cael effaith negyddol ar allu'r tîm i wneud cais am grantiau.

Dywedwyd mai'r targed ariannol ar gyfer y flwyddyn ganlynol oedd £125k, a gofynnodd Aelod sut oedd y targed hwn wedi'i benderfynu. Ymatebodd y Cyfarwyddwr bod y targed wedi'i gytuno mewn cydweithrediad â Thrysorydd yr Ymddiriedolaeth drwy ystyried elfennau megis targedau hanesyddol. Roedd y Cyfarwyddwr yn cydnabod y gellid ystyried £125k yn uchelgeisiol, ond oherwydd lefel y cyllid yr oedd y tîm eisoes wedi'i sicrhau, barnwyd bod y targed yn gyraeddadwy.

Dywedwyd bod yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn cymynrodd o £4k, a gofynnodd Aelod a oedd y tîm wedi pennu targed ar gyfer rhoddion fel cymynrodd. Ymatebodd y Cyfarwyddwr er nad oedd targed penodol wedi'i osod, bod digwyddiad etifeddiaeth wedi'i drefnu ar gyfer yr Hydref lle rhagwelwyd y byddai camau pellach yn cael eu gwneud o ran sicrhau mwy o roddion fel cymynrodd. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr bod angen gwneud gwaith ar wefan yr Ymddiriedolaeth i hyrwyddo ymhellach yr opsiwn i adael rhodd ar ffurf cymynrodd.

Dywedwyd mai cyfanswm incwm yr Ymddiriedolaeth yn 2023/24 oedd ychydig dros £79k. Dywedodd Aelod bod yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn £60k o arian heb ei ddyrannu gan yr Awdurdod yn flynyddol a gofynnwyd a oedd hyn yn elw da ar fuddsoddiad i'r Awdurdod. Ymatebodd Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth bod diwrnod cwrdd i ffwrdd i'r Ymddiriedolwyr wedi'i drefnu i drafod materion megis cyllid yr Ymddiriedolaeth a'r hyn y gellir ei wneud i wella'r sefyllfa. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod yn ystyried yr Ymddiriedolaeth yn un o nifer o ffynonellau cynhyrchu incwm ar gyfer yr Awdurdod ond yn cydnabod bod yr elw ar y buddsoddiad i'r Ymddiriedolaeth yn is na ffynonellau eraill o incwm. Eglurodd bod y tîm Codi Arian fodd bynnag hefyd yn gweithio'n effeithiol yn eu cais i godi arian yn uniongyrchol i'r Awdurdod oedd yn cyfateb i rhyw £500k dros y 12 mis diwethaf. Cytunwyd bod yr Ymddiriedolaeth yn dal yn ei ddyddiau cynnar ar ôl cael ei sefydlu yn 2018 a bod yr amgylchiadau codi arian yn anodd oherwydd nifer o ffactorau megis yr argyfwng costau byw. Ychwanegwyd, er gwaethaf hyn, bod angen newid sylweddol i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cyfrannu mwy at waith yr Awdurdod.

**Nodwyd.**

**8. Cyfarwyddyd Erthygl 4 Ymgynghoriad ar Wersylla 28-diwrnod**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu a gyflwynodd adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i ymgynghori ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 arfaethedig fyddai'n dileu rhai hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gwersylla a charafanio. Eglurwyd y byddai hyn yn rhoi fframwaith cynllunio fyddai'n caniatáu i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro hyrwyddo twristiaeth adfywiol mewn modd cynaliadwy.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth gefndir a manylion am achosion lle roedd hawliau datblygu a ganiateir o ran rhai meysydd gwersylla a charafanau yn tanseilio'r strategaeth twristiaeth adfywiol. Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod yr eithrio ar hyn o bryd yn caniatáu defnyddio tir ar gyfer gwersylloedd pebyll dros dro am hyd at 28 diwrnod y flwyddyn heb fod angen caniatâd cynllunio. Dywedwyd bod potensial o dan y ddeddfwriaeth bresennol y gallai hyn olygu effeithiau unigol a chronnol sylweddol ar y dirwedd yn ogystal ag effeithiau cysylltiedig eraill ar y seilwaith a'r amgylchedd megis gollyngiadau dŵr budr heb ei reoleiddio sy'n effeithio'n andwyol ar gyrsiau dŵr. Dywedwyd hefyd bod y sefyllfa bresennol yn rhoi baich sylweddol ar swyddogion gorfodi yr Awdurdod y gofynnir iddynt asesu a oedd safleoedd gwersylla a charafanau yn torri amodau cynllunio.

Roedd y papur yn nodi'r opsiynau a ystyriwyd gan y Swyddogion, a'r opsiwn a ffefrir fyddai'n rhoi fframwaith gwell i helpu i reoli effeithiau

presennol y meysydd gwersylla dros dro am 28 diwrnod drwy ddileu’r hawl datblygu a ganiateir a gwella’r cydweithredu â Sefydliadau Eithrio i sicrhau cydymffurfiaeth drwy gyflwyno cod ymddygiad gwirfoddol.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai'n anodd rhagweld nifer y ceisiadau fyddai'n cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r newid arfaethedig. Ychwanegwyd er gwaethaf hyn, bod Awdurdodau tebyg oedd eisoes wedi gweithredu'r newid wedi gweld lefel isel o geisiadau datblygu a ganiateir a lefel uchel o symud safleoedd i Sefydliadau Eithriedig. Rhagwelwyd felly y byddai'r canlyniadau yn debyg yn achos APCAP. Eglurodd y Cyfarwyddwr y gallai symud safleoedd i Sefydliadau Eithriedig fod yn gam cadarnhaol gan y byddai'r Awdurdod wedyn yn gallu cydweithio â'r grŵp hwn i wella'r safonau yn gyffredinol.

O ran cydweithio, dywedodd y Cyfarwyddwr bod cyfarfodydd wedi’u cynnal gyda'r ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru ac Awdurdodau eraill oedd wedi gweithredu Erthygl 4 tebyg er mwyn rhannu profiadau a’r wybodaeth ddiweddaraf. Ychwanegwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael gwybod am y newid arfaethedig a'u bod yn gadarnhaol ynghylch agwedd yr Awdurdod. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr bod gweithdy wedi'i drefnu ar gyfer cynghorau tref a chymuned i drafod y cynnig.

O ran ystyriaethau ariannol, gofynnodd Aelod a fyddai cyflwyno'r Erthygl 4 arfaethedig yn niwtral o ran cost. Dywedwyd bod gan yr Awdurdod gyllideb ddigonol i gynnal yr ymgynghoriad, fodd bynnag fe fyddai goblygiadau o ran adnoddau gan na chodir tâl am geisiadau datblygu a ganiateir. Er gwaethaf hyn, eglurodd y Cyfarwyddwr y byddai ymchwiliadau gorfodi yn cael eu symleiddio, a rhagwelwyd felly y byddai gostyngiad net mewn amser y Swyddogion, gan wneud y newid yn niwtral ar y cyfan o ran cost.

Mynegodd Aelod bryder ynghylch y canfyddiad negyddol posibl o'r Awdurdod yn sgîl y newid hwn. Cytunwyd y byddai cyfathrebu effeithiol yn hanfodol i reoli canfyddiad y cyhoedd.

Gofynnodd Aelod am sicrwydd pe bai Erthygl 4 yn cael ei chyflwyno, bod digon o rybudd yn cael ei roi i'r cyhoedd gyflwyno ceisiadau. Mewn ymateb, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at yr amserlen a nodir yn yr adroddiad gan gadarnhau y byddai digon o gyfle i bob safle gyflwyno eu ceisiadau. Dywedwyd y byddai'r tîm yn gweithio i amserlen o 8 wythnos i bob cais gael eu prosesu.

Ar y mater o amserlen, holodd Aelod a fyddai modd cael proses o gyflymu ceisiadau syml. Ymatebodd y Cyfarwyddwr bod y tîm yn ystyried datblygu categorïau o geisiadau er mwyn cyflymu ceisiadau cymwys. Roedd yn cydnabod fodd bynnag y byddai'r angen i gael ymatebion gan y

rhai yr ymgynghorir â hwy yn debygol o effeithio ar amser prosesu ceisiadau.

Holodd Aelod a ddylai'r Awdurdod gwblhau Asesiad o Effaith Rheoleiddio ar gyfer yr Erthygl 4 arfaethedig, a nodwyd bod y Cyfarwyddwr i ymchwilio i hyn.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd R Jordan, **PENDERFYNWYD**:

1) bod ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal:

a) ar y posibilrwydd o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) yn dileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd rheol 28 diwrnod fel y nodir yn y Papur Cefndir Atodiad A.

b) ar y posibilrwydd o gyflwyno Cod Ymddygiad / Protocol Gweithio ar gyfer Sefydliadau Eithriedig fel y nodir yn y Papur Cefndir Atodiad A.

2) bod Asesiad o Effaith Integredig Cam 1 yn Atodiad B Rhan 1 a Rhan 2 a dogfen Cwestiynau Cyffredin, holiadur a nodyn canllaw drafft ar y modd y byddai ceisiadau am safle 28 diwrnod yn cael eu hasesu drwy'r system gynllunio, yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd er gwybodaeth.

**9. Cynllun Rheoli Cyrchfan**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Natur a Thwristiaeth a gyflwynodd adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i Gynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro (Strategaeth Twristiaeth) 2024-2028 oedd wedi'i ddiweddaru.

Dywedwyd bod Croeso Sir Benfro wedi'i ffurfio yn 2020 drwy ddwyn ynghyd adnoddau a ddarparwyd yn flaenorol gan 4 sefydliad gwahanol: Cyngor Sir Penfro (CSP), Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP), Twristiaeth Sir Benfro a PLANED. Un o'i swyddogaethau craidd yw arwain a goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Twristiaeth y cyfeirir ati fel y Cynllun Rheoli Cyrchfan.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod y Cynllun Rheoli Cyrchfan yn ddogfen strategol, oedd yn ffocws ar gyfer gweithgarwch a buddsoddiad mewn Twristiaeth yn Sir Benfro. Er mai Croeso Sir Benfro oedd yn arwain y gwaith o lunio'r strategaeth, ac agweddau ar gyflawni'r strategaeth, roedd hon yn strategaeth o bartneriaeth na ellid ei chyflawni'n llawn heb CSP, APCAP a phartïon eraill yn y sector preifat a'r trydydd sector megis PLANED a'r gymuned busnes twristiaeth. Roedd yr adroddiad yn rhoi

rhagor o wybodaeth gefndir, manylion am yr ymgynghoriad ar y Cynllun a drafft o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan wedi'i ddiweddaru.

Mynegodd Aelod bryder oherwydd y diffyg mesurau yn yr adroddiad, a gofynnodd am i'r rhain gael eu cynnwys er mwyn sicrhau bod modd olrhain cynnydd a llwyddiant. Yn ogystal, awgrymwyd clustnodi blaenoriaethau gan fod y Cynllun yn cael ei ystyried yn gyfle da i ddylanwadu'n gadarnhaol ar dwristiaeth adfywiol. Awgrymodd yr Aelod hefyd y dylai log gweithredu gael ei gynnwys yn y Cynllun gydag ymrwymiadau yn cael eu cytuno gan bob parti. Cytunodd y Prif Weithredwr y byddai angen mesurau meintiol fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan er mwyn monitro llwyddiant. Ymatebodd y Cyfarwyddwr bod grŵp penodedig wedi'i sefydlu i lywio’r Cynllun Rheoli Cyrchfan i ystyried blaenoriaethau strategol ac elfennau eraill o'r Cynllun.

Dywedwyd bod cam gweithredu wedi gynnwys fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan i integreiddio system trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy i gynnig dewisiadau eraill dibynadwy yn lle'r car i gefnogi ymwelwyr, cymunedau a gweithluoedd. Cafwyd trafodaeth am bwysigrwydd teithio cynaliadwy i Sir Benfro a'r heriau o ran cyflawni hynny. Eglurwyd bod yr Awdurdod wedi cynnal darn o waith annibynnol oedd yn edrych ar ffyrdd y gellid gwella trafnidiaeth gynaliadwy yn yr ardal er mwyn bwydo i mewn wedyn i ddull llawer ehangach. Ychwanegwyd bod yr Awdurdod wedi ymateb i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i glustnodi blaenoriaethau ar gyfer Sir Benfro.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at y ffaith pe byddai'r strategaeth yn cael ei chymeradwyo, y byddai wedyn yn cael ei chyflwyno i'r Uwchgynhadledd Twristiaeth fis Mai fyddai'n rhoi'r cyfle i lansio'r dyheadau cyfunol ac i gytuno ar addewidion ynghylch sut y byddai pob parti yn cyfrannu.

Gofynnodd y Cadeirydd am gadarnhad ynghylch faint o amser Swyddogion fyddai'n cael ei neilltuo i'r Cynllun pe bai'n cael ei gymeradwyo. Ymatebodd y Cyfarwyddwr bod trafodaethau ynghylch y Cynllun Rheoli Cyrchfan eisoes yn rhan o waith y tîm gan eu bod yn cysylltu â sefydliadau partner yn gyson. Ychwanegwyd bod capasiti’r tîm Twristiaeth Adfywiol wedi cynyddu yn ddiweddar, fodd bynnag, yn gyffredinol, byddai'r amser Swyddogion fyddai ei angen ar gyfer y Cynllun yn fach iawn.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Dr R Heath-Davies, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro (Strategaeth Twristiaeth) 2024-2028 gan ychwanegu mesurau meintiol fel y trafodwyd.

*[Gohiriwyd y cyfarfod o 11:45am i 11:55am]*

**10. Polisi Diogelu Gwybodaeth a Data a Pholisi Defnyddwyr TGCh**

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Datgarboneiddio a gyflwynodd adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol i Bolisi Diogelu Gwybodaeth a Data diweddaraf yr Awdurdod a Pholisi Defnyddwyr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yr Awdurdod. Dywedwyd bod y polisïau wedi'u cymeradwyo gan Dîm Rheoli'r Awdurdod a'u bod wedi bod yn destun proses o ymgynghori â Staff ac Aelodau'r Parc Cenedlaethol.

Awgrymodd Aelod y dylid cyhoeddi fideo hyfforddi byr i’r staff sy'n methu â chlustnodi e-byst gwe-rwydo er mwyn codi ymwybyddiaeth a lleihau achosion o dorri rheolau yn y dyfodol.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Dr R Heath-Davies, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Polisi Diogelu Gwybodaeth a Data a'r Polisi Defnyddwyr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

**11. Cylch Gorchwyl**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynodd adroddiad oedd yn gofyn am gytundeb yr Aelodau i'r diwygiadau i Gylch Gorchwyl yr Awdurdod a'i Bwyllgorau, gan gynnwys uno'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a’r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau.

Dywedwyd bod diwygiadau diweddar i fecanweithiau’r Awdurdod o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad wedi golygu bod angen adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a’r Pwyllgor Adolygu Gweithredol yr Awdurdod. Yn ogystal â hyn, bu cais am egluro cyfrifoldebau'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a’r Pwyllgor Archwilio o ran Iechyd a Diogelwch. Er bod newidiadau wedi'u gwneud i Gylch Gorchwyl nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nodwyd bod cryn amser wedi mynd heibio ers i’r pwyllgorau gael eu hadolygu yn eu cyfanrwydd.

Cadarnhaodd y Swyddog bod rhai sylwadau gan yr Aelodau wedi dod i law cyn y cyfarfod ac y byddai'r sylwadau hynny yn cael eu hystyried.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai Cadeirydd y pwyllgor unedig yn cael ei sefydlu yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol nesaf.

O ran y Pwyllgor Archwilio, dywedodd Aelod bod pwynt gweithredu arall wedi'i ychwanegu i fonitro perfformiad yr Awdurdod o ran cynhyrchu incwm. Gofynnodd yr Aelod am gadarnhad ynghylch rôl y pwyllgor yn y mater hwn, ai monitro neu ysgogi cynhyrchu incwm. Ymatebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud mai’r Pwyllgor Archwilio oedd yn gyfrifol am oruchwylio materion ariannol ac y byddai cynhyrchu incwm ac arbedion effeithlonrwydd yn cael eu cynnwys fel rhan o’r adroddiadau ariannol

chwarterol arferol ac y gellid cyfeirio atynt o dan y pwynt bwled cyntaf yn adran 2.
O dan y pennawd 'Risg a Sicrwydd', nodwyd bod Iechyd a Diogelwch wedi'i gynnwys ddwywaith ar gyfer y Pwyllgor Archwilio ac felly gofynnwyd am ddileu'r dyblygu. Nodwyd hyn gan y Swyddog.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **PENDERFYNWYD**:

i) Cytuno i uno'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau,
ii) Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig yn amodol ar y newidiadau uchod.

**12. Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian a gyflwynodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023/24. Roedd y Datganiad yn rhoi trosolwg o drefniadau'r Awdurdod o ran llywodraethu gan gynnwys ystyried ble oedd angen gwella prosesau a materion llywodraethu. Eglurwyd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dangos tryloywder ac yn rhoi sicrwydd bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i wella'n barhaus y modd y mae'n gweithredu. Yn dilyn adborth gan yr Aelodau, roedd fformat ar ei newydd wedd wedi'i lunio gyda drafft wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Amlygodd y Swyddog bod nifer o ddelweddau wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i ddiweddaru i atgoffa darllenwyr o weledigaeth yr Awdurdod a phwysigrwydd gwarchod ei rinweddau arbennig.

Gwnaeth yr Aelodau nifer o awgrymiadau ynghylch cynnwys y Datganiad, megis cynnwys hierarchaeth Pwyllgorau ac uwch reolwyr; datganiad ynghylch y 'tair llinell amddiffyn' fel rhan o'r adran 'Sicrwydd'; cynnwys y Pwyllgor Rheoli Datblygu fel rhan o'r adran 'Sicrhau bod yn agored'; cynnwys manylion rhanddeiliaid allweddol fel rhan o'r adran 'Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r Gymuned'. Yn olaf, awgrymwyd y dylid cofnodi gwaith y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth a manylion yr arbenigwyr a ddefnyddir gan yr Awdurdod yn yr adran 'Penderfynu a Chynllunio Ymyriadau'.

Dywedwyd y byddai fersiwn terfynol y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ddiweddarach yn y flwyddyn fel atodiad i'r cyfrifon.

**Nodwyd.**

**13. Diweddariad ar y Cyfleusterau Toiledau**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu a gyflwynodd adroddiad oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y camau ymlaen a gymerwyd drwy weithio gyda Chyngor Sir Penfro (CSP) ar y cyfleusterau toiledau. Dywedwyd bod y gwaith yn dilyn ymlaen o gytundeb blaenorol gan yr Awdurdod i wneud cyfraniad gwirfoddol i gefnogi darparu toiledau cyhoeddus yn ardal y Parc Cenedlaethol dros gyfnod o 2 flynedd yn dechrau ar Ebrill 2024. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth gefndir, diweddariad ar y camau ymlaen a manylion y camau nesaf.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ddau brosiect penodol, yn Nhraeth Mawr/ Traeth Trefdraeth oedd yn cynnwys defnyddio cyllid grant cyfalaf i adeiladu toiledau newydd a chyfleusterau newid, a hefyd comisiynu Astudiaeth ar Feysydd Parcio Arfordirol i ddeall sut y gallai meysydd parcio talu ac arddangos fod yn byrth hygyrch i’r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys y posibilrwydd o ddarparu gwell cyfleusterau toiledau. Ychwanegwyd bod comisiynu'r astudiaeth wedi bod yn rhagweithiol i sicrhau bod gan yr Awdurdod y data gofynnol erbyn bod grantiau ariannu addas ar gael.

Holodd Aelod pam nad oedd yr astudiaeth hefyd yn cynnwys meysydd parcio di-dâl yr Awdurdod. Ymatebodd y Cyfarwyddwr bod meysydd parcio talu ac arddangos wedi'u blaenoriaethu gan fod y cyllid oedd ar gael yn gyfyngedig ar gyfer yr astudiaeth. Fodd bynnag byddai rhagor o waith yn cael ei wneud ar y meysydd parcio di-dâl yn y dyfodol. Cadarnhawyd y byddai'r astudiaeth ddichonoldeb wedi’i chwblhau erbyn mis Hydref 2024 ac y byddai'n edrych ar ffyrdd y gallai'r Awdurdod annog bioamrywiaeth, cynhyrchu incwm a chynhwysiant a mynediad ar y safleoedd hyn.
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â’r cyfleoedd creu incwm yn y meysydd parcio a chytunodd yr Aelodau bod angen dulliau gwahanol a mwy arloesol i sicrhau dyfodol hirdymor i’r cyfleusterau megis toiledau a ystyrid yn hanfodol i'r gymuned ac i ymwelwyr. Ategodd yr Aelodau yr angen am ddod o hyd i ateb ar frys o ran toiledau cyhoeddus.

Holodd yr Aelodau a fyddai'n ymarferol codi tâl am ddefnyddio’r toiledau cyhoeddus. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog, yn dilyn trafodaethau gyda CSP, y cytunwyd oherwydd cyflwr gwael nifer o adeiladau’r toiledau, na fyddai'n briodol codi tâl am ddefnyddio'r cyfleusterau hyn ar hyn o bryd. Er gwaethaf hyn, dywedodd y Swyddog y byddai'r astudiaeth yn archwilio pob cyfle i gynhyrchu incwm gan gynnwys consesiynau. Awgrymodd Aelod bod y Swyddogion hefyd yn ymgysylltu â'r sector preifat i fanteisio ar eu profiadau hwy o ran meysydd parcio preifat a phroffidiol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr bod y cydweithio gyda CSP wedi bod yn gadarnhaol ac adeiladol gyda llawer iawn o ymgysylltu gan Swyddogion y Cyngor Sir.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2024 heb eu diwygio. |